Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path



# Sir Gaerfyrddin
# Carmarthenshire

## Crwydro Arfordir Cymru
## Coastal Walking Wales



## Sir Gaerfyrddin

Arfordir amrywiol iawn yw un Bae Caerfyrddin. Mae llawer o wahanol gynefinoedd i'w gweld yno, gan gynnwys corsydd dŵr croyw, morfeydd (yn cynnwys y morfa heli di-dor mwyaf yng Nghymru), twyni tywod, fforestydd o goed pinwydd a chomins arfordirol sy'n cynnal dewis gwych o fflora a ffawna. Mae Llwybr yr Arfordir yn troi i mewn i'r tir mewn mannau, o amgylch aberoedd Afon Taf, Afon Tywi ac Afon Gwendraeth, ac yn croesi Caerfyrddin, y dref sirol.

### Uchafbwyntiau

1. **Cestyll Talacharn, Llansteffan a Chydweli**
Tri adfail hudol mewn lleoliadau hyfryd sy'n cynnig golygfeydd o Fae Caerfyrddin ac aberoedd yr afonydd.
2. **Cartref Dylan Thomas yn Nhalacharn**
Archwiliwch gartref y Cymro enwog. Lleoliad trawiadol a roddodd gryn ysbrydoliaeth iddo.
3. **Parc Arfordirol y Mileniwm**
Llwybr pwrpasol i gerddwyr a beicwyr ar hyd aber Afon Llwchwr.
4. **Canolfan Gwlyptiroedd Cenedlaethol Cymru**
Dewch i ganolfan y WWT (yr ymddiriedolaeth dros wlyptiroedd ac adar dŵr) ger Llanelli i seiclo, cerdded neu ganŵio hyd yn oed, ac i weld bywyd gwyllt ar ei orau.



Talacharn
Laugharne



Burry Port
Porth Tywyn

## Carmarthenshire

Carmarthen Bay is a coastline of great contrasts and takes in a range of habitats including fresh water marshes, salt marshes (including the largest continuous salt marsh in Wales), sand dunes, pine forests and coastal commons all supporting a spectacular array of flora and fauna. In places, the Coast Path heads inland around the estuaries of the Taf, Towy and Gwendraeth, passing through the county town of Carmarthen.

### Highlights

1. **Laugharne, Llansteffan & Kidwelly Castles**
Three romantic ruins within spectacular settings with views over Carmarthen Bay and estuaries.
2. **Dylan Thomas Boathouse, Laugharne**
Explore the home of this famous Welsh son. A stunning setting where he found great inspiration.
3. **Millennium Coastal Park**
A dedicated walk and cycle way along the Loughor estuary.
4. **National Wetlands Centre**
Cycle, walk or even canoe around the Wetlands and Wildfowl Trust's centre near Llanelli for some amazing wildlife sightings.

## Y Codau Cefn Gwlad

Yn dilyn cyngor yn y Codau Cefn Gwlad i fanteisio'n llawn ar eich ymweliad:


- parchwch bobl eraill
- diogelwch yr amgylchedd naturiol
- mwynhewch yr awyr agored a chadwch yn ddiogel

Darllenwch y Codau Cefn Gwlad yn **www.naturalresources.wales/countryside-codes?lang=cy**


## Mwynhewch eich taith gerdded

Ewch i wefan Mentro'n Gall Cymru i ganfod awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut i fwynhau antur yr arfordir yn ddiogel. **www.adventuresmart.uk/cy/arfordir**

Gallwch ail-lenwi eich potel ddŵr yn ystod eich taith. Lawrlwythwch ap Refill i ddod o hyd i'ch Gorsaf Ail-lenwi leol, gan gael dŵr yfed ffres yn ystod eich taith. **refill.org.uk**



Tŷ Cwch
Dylan Thomas
Dylan Thomas's
Boat House



Amroth i Pentywyn
Amroth to Pendine

## Countryside Codes

Follow the advice in the Countryside Codes to get the most out of your visit:

- respect other people
- protect the natural environment
- enjoy the outdoors and stay safe

Read the Countryside Codes at **www.naturalresources.wales/countryside-codes**

## Enjoy your walk

Visit the Adventure Smart Wales website for some useful hints and tips on how to enjoy coastal adventure safely. **www.adventuresmart.uk/coast**

You can refill your water bottle along the way. Download the Refill App to find your local Refill Station and get fresh drinking water on the go. **refill.org.uk**

## Gair i gall

Gellir dod o hyd i fapiau manwl, teithiau undydd ac aml-ddiwrnod, teithiau cylchol, trefnwyr teithiau a chwmnïau cludo bagiau ar **www.llwybrarfordircymru.gov.uk**

Fe welwch amserlenni cynhwysfawr ar **www.cymraeg.traveline.cymru**. Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd man cychwyn eich taith gerdded a'ch bod yn cerdded i'ch llety/car, yn lle gwneud fel arall.

Er eich diogelwch, cadwch olwg ar amserau'r llanw gan ddefnyddio'r tablau llanw perthnasol: **www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times**

Lawrlwythwch ap Llwybr Arfordir Cymru i ddilyn eich taith gerdded a chael rhagor o wybodaeth. Chwiliwch am Lwybr Arfordir Cymru yn eich siop apiau.

## Top tips

Detailed maps, one and multi day itineraries, circular walks, tour organisers and baggage carrying companies can be found on **www.walescoastpath.gov.uk**

You will find comprehensive timetables at **www.traveline.cymru**. We recommend that you use public transport to get you to the start of your walk and walk to your accommodation/car instead of the other way round.

For your safety please keep track of the tides using the relevant tide tables: **www.metoffice.gov.uk/weather/specialist-forecasts/coast-and-sea/beach-forecast-and-tide-times**

Download the Wales Coast Path App to track your walk and get further information. Search for Wales Coast Path in your app store.

Sganiwch y cod QR hwn i fynd i'n gwefan
Scan this QR code to go to our website

**www.llwybrarfordircymru.gov.uk**
**www.walescoastpath.gov.uk**

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llun clawr / Cover image: Burry Port / Porth Tywyn
Delweddau © Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council

Tachwedd / November 2023




## Llwybr Arfordir Cymru

Gydag 870 o filltiroedd i'w troedio, mae gan Lwybr Arfordir Cymru rywbeth i'w gynnig i bawb. O archwilio ein treftadaeth a'n diwylliant i gael diwrnod llawn hwyl gyda'r teulu; o roi cynnig ar weithgaredd llawn adrenalin i ymlacio ar draeth bendigedig. Dewch draw i weld beth sy'n gwneud y llwybr yn gyrchfan awyr agored heb ei ail ac i weld pa mor hawdd yw hi i wneud y llwybr yn rhan o'ch bywyd bob dydd neu eich gwyliau. I gael mwy o awgrymiadau ynglŷn â'r pethau y gallwch eu gweld a'u gwneud ar y llwybr, ewch i **www.llwybrarfordircymru.gov.uk**

## Wales Coast Path

With 870 miles to explore, the Wales Coast Path has something for everyone. From exploring our heritage and culture to having a fun day out with the family, or from trying one of Wales's coastal adrenalin activities to putting your feet upon one of our gorgeous beaches. Dip your toe in and find out why this is such a fantastic outdoor destination and discover just how easy it is to fit the Wales Coast Path in to your daily life or your holiday planning. For more suggestions on what you can see and do on the Wales Coast Path, please visit **www.walescoastpath.gov.uk**

## Teithiau cerdded

**Amroth i Bentywyn (9km / 5.5 milltir)**
Ychydig iawn o bobl sy'n gwybod am y rhan hyfryd yma o'r arfordir. Tirwedd o glogwyni syfrdanol sydd yno, ynghyd â thraethau tebyg iawn i'r rhai yn Sir Benfro. Mae gan Draeth Pentywyn hanes cyffrous o bobl yn ceisio torri'r record cyflymder yno.

**Talacharn (2.75km / 1.75 milltir)**
**(rhwng cartref Dylan Thomas a fferm Salt House)**
Oedwch yn Nhalacharn i archwilio'r pentref cyn dringo bryn serth Sant Ioan i weld golygfeydd da o'r ardal. Byddwch yn dod at gastell Talacharn a'r tŷ cychod enwog lle y cafodd Dylan Thomas, y bardd enwog, ei ysbrydoli.

**Llansteffan (2.5km / 1.5 milltir)**
Llwybr sy'n cynnig golygfeydd ardderchog o Fae Caerfyrddin a'r môr y tu hwnt. Mae'n croesi brigau'r clogwyni sydd dan garped o goed a phrysgwydd. Mae llawer o adar môr yn treulio'r gaeaf yn y bae ei hun, sy'n ei wneud yn safle pwysig ac yn sail i'w ddynodi fel yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig gyntaf yn y Deyrnas Unedig.

**Glanyfferi i Gydweli (8.5km / 5.25 milltir)**
Mae'r rhan yma o'r Llwybr yn croesi tir dymunol y cefn gwlad i mewn o'r môr, ond mae golygfeydd gwych oddi yno ar draws aberoedd tair afon a Phenrhyn Gŵyr. Y castell canoloesol mawreddog yw'r prif atyniad yng Nghydweli.

**Cydweli i Borth Tywyn (14.75km / 9.25 milltir)**
Llwybr drwy Goedwig Pen-bre, gwarchodfa natur yng ngofal Cyfoeth Naturiol Cymru. Coed pinwydd Corsica yn bennaf sy'n tyfu yn nhywod y twyni, ond mae rhai coed collddail yn tyfu mewn mannau hefyd. Ymlaciwch ym Mharc Gwledig Pen-bre ac ewch am dro i draeth Cefn Sidan.

**Porth Tywyn i Lanelli (6.75km / 4.25 milltir)**
Mae'r arfordir ar hyd glan ogleddol aber Afon Llwchwr wedi cael ei drawsnewid yn gasgliad unigryw o atyniadau i dwristiaid, cynefinoedd i fywyd gwyllt a chyfleusterau hamdden. Parc Arfordirol y Mileniwm yw'r enw ar yr ardal, ac mae'r llwybr yn addas hefyd i feicwyr a phobl mewn cadeiriau olwyn.

## Suggested walks

**Amroth to Pendine (9km / 5.5 miles)**
The little known gem of the Carmarthenshire coast, with a landscape of spectacular cliffs and beaches reminiscent of neighbouring Pembrokeshire. Pendine Sands has a thrilling history of land speed trials.

**Laugharne (2.75km / 1.75 miles)**
**(Dylan Thomas Boathouse to Salt House Farm)**
Take time exploring the village of Laugharne before a steep climb up Sir John's Hill for great views. Along the way you will find Laugharne castle and the world famous Boathouse where the poet Dylan Thomas lived and found inspiration.

**Llansteffan (2.5km / 1.5 miles)**
This walk offers superb views across Carmarthen Bay and beyond. The path skirts the top of wooded and scrub-covered cliffs. Carmarthen Bay is an important overwintering ground for seabirds, and for this reason was designated as the first marine Special Protection Area in the UK.

**Ferryside to Kidwelly (8.5km / 5.25 miles)**
This section of the Path crosses pleasant countryside, away from the coast, but it includes magnificent views across three river estuaries and over to the Gower Peninsula. Kidwelly's main attraction is the imposing medieval castle.

**Kidwelly to Burry Port (14.75km / 9.25 miles)**
A walk through Pembrey Forest, a nature reserve managed by Natural Resources Wales. Planted on sand dunes, it is mostly a Corsican pine forest, but with deciduous trees growing in parts.

**Burry Port to Llanelli (6.75km / 4.25 miles)**
The coastline along the northern shore of the Loughor Estuary has been transformed into a unique array of tourist attractions, wildlife habitats and leisure facilities. Known as the Millennium Coastal Park, the route is also bike and wheelchair friendly. Take time to relax in the lovely Pembrey Country Park and visit Cefn Sidan beach.

Beth am gofnodi eich taith ar hyd Llwybr Arfordir Cymru?

Why not record your Wales Coast Path journey!

## Pasbort | Passport
## Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire

| Llwybrau Paths | Milltir Miles | km | Dyddiad Date |
|---|---|---|---|
| Amroth > Pentywyn / Pendine | 5 | 8 | ○ |
| Pentywyn / Pendine > Talacharn / Laugharne | 6 | 10 | ○ |
| Talacharn / Laugharne > Sanclêr / St Clears | 5 | 8 | ○ |
| Sanclêr / St Clears > Llansteffan | 10 | 16 | ○ |
| Llansteffan > Llangain | 5 | 8 | ○ |
| Llangain > Caerfyrddin / Carmarthen | 4 | 6 | ○ |
| Caerfyrddin / Carmarthen > Glan y Fferi / Ferryside | 9 | 14 | ○ |
| Glan y Fferi / Ferryside > Cydweli / Kidwelly | 5 | 8 | ○ |
| Cydweli / Kidwelly > Porth Tywyn / Burry Port | 9 | 14 | ○ |
| Porth Tywyn / Burry port > Llanelli | 4 | 6 | ○ |
| Llanelli > Bynea | 6 | 10 | ○ |

Ewch i'n tudalen Pasbortau **www.llwybrarfordircymru.gov.uk/pasborti** gael manylion am dystysgrifau cwblhau a phethau i gofio eich taith.

Visit our Passport page **www.walescoastpath.gov.uk/passport** for details about completion certificates and mementos to commemorate your journey.

